WHAT CAN YOU DO?

YSGOLION ARBENNIG

DathluAG

Mae'n bryd dathlu amrywiaeth ac ystyr Addysg Grefyddol ac nid oes lle gwell i wneud hynny nag ysgol arbennig. Dyma gyfle i roi cynnig ar rywbeth newydd, archwilio profiadau synhwyraidd gwahanol a dangos i rieni, gofalwyr ac ymwelwyr bod yr ysgol yn gwerthfawrogi Addysg Grefyddol.

Dyma rai pethau ymarferol i'w gwneud i godi ymwybyddiaeth o Ddathliad Cenedlaethol Addysg Grefyddol 20111.

Dewch ag arteffact newydd i'r ystafell ddosbarth Gallech lapio cerflun Buddha, llun o Krishna neu Ganesha neu groes Geltaidd newydd gan adael i'r plant gymryd eu tro i'w hagor. Gallent ddangos lle yr hoffent roi'r ychwanegyn newydd yn yr ystafell a helpu i greu lle hardd i'w roi, gan ddefnyddio deunyddiau aur ac arian.

Profi gŵyl wahanol Yn defnyddio thema Tu B'Shevat (Blwyddyn Newydd Coed yr Iddewon), gallai'r plant arogli arogl cysylltiedig newydd, megis grawnafal neu ffigys. Gallent arogli, cyffwrdd a, lle bo hynny'n briodol, blasu gwahanol ffrwythau megis ffrwyth Sharon. Gallai'r plant gyffwrdd y coed o amgylch yr ysgol a gwneud rhwbiadau ar y rhisgl.

Gwneud ymbarél synhwyraidd Addysg Grefyddol Grefyddol Syniad Flo Longhorn yw ymbarél synhwyraidd. Gallwch greu ymbarél synhwyraidd yn seiliedig ar grefydd, yn defnyddio gwrthrychau sy'n hongian oddi wrth y sbôcs fel bo'r disgyblion yn cael eu hamgylchynu â symbyliadau ffydd. Gellir rhoi ymbarél y Pasg mewn ystafell synhwyraidd a gallai gynnwys symbolau bywyd newydd, cennin pedr plastig, cwningod a chywion bach yn ogystal â chroesau wedi'u gwneud o bapur a defnyddiau fflwroleuol. Gallai golau uwchfioled a cherddoriaeth ddefosiynol Gristnogol ychwanegu at y parchedig ofn a rhyfeddod hefyd. www.multi-sensory-room.co.uk

Creu ffenestri Dathlu Addysg Grefyddol Gall y disgyblion wneud ffenestri lliw trwy roi ochr ludiog plastig gludiog ar i fyny dros dempled syml. Gellid defnyddio'r arwydd lleuad a seren ar gyfer Islam. Rhowch bapur sidan ar y plastig ac yna glud PVA drosto i gyd i'w wneud yn galed a sgleiniog. Gellir arddangos y cynnyrch gorffenedig ar ffenestri'r ystafell ddosbarth.

Archwilio crefydd newydd Gall athrawon, cynorthwywyr dosbarth a disgyblion ddysgu gyda'i gilydd am grefydd newydd. Er enghraifft, ffydd Zoroastriaeth, Jainiaeth neu Baha'i. Gallai'r disgyblion ddysgu symbolau Makaton ar gyfer cariad, heddwch, undod ac un byd. Gallent adnabod y Teml Lotws hardd yn Delhi www.bahaindia.org/temple a seren naw pigyn Baha'i a'r symbol carreg fodrwy.

Mwynhewch ardal fyfyrio yn yr awyr agored Crëwch le llonydd newydd yn yr awyr agored lle gall y disgyblion eistedd a myfyrio gan ddefnyddio pabell a chlustogau. Gallech ychwanegu clychau a throellwyr gwynt a chasgliad o beli meddal a gwrthrychau synhwyraidd poblogaidd eraill.

Ewch i ymweld â man addoli Ewch i weld man addoli sy'n cynnwys nifer o brofiadau synhwyraidd, megis teml Hindŵaidd. Gall y disgyblion brofi rhai o'r elfennau cyn yr ymweliad, megis canu cloch, cyffwrdd yr hambwrdd puja, gafael mewn murti, arogli canhwyllau arogldarth a gwrando ar sŵn y weddi aarti.

Ewch ar daith gerdded Addysg Grefyddol

Ewch i'r gymuned, lle bo hynny'n briodol, i weld yr arwyddion o grefydd ac ysbrydolrwydd sydd o gwmpas. Mewn cymunedau amrywiol, gallai hyn olygu ymweld ag archfarchnad ethnig, edrych ar symbolau megis khanda y Sîciaid ar geir a thai pobl, neu ar ddillad pobl. Bydd ffotograffau yn helpu pawb i gofio eu profiad. Gallai taith gerdded St Francis ganolbwyntio ar y byd naturiol o'n cwmpas a gallai'r disgyblion bwyntio at y 'Brawd Coeden' a'r 'Chwaer Flodau' ac ymddiheuro os ydynt yn cerdded mewn pyllau dŵr neu ar bryfetach yn ddamweiniol.

Cynnal disgo Addysg Grefyddol Dewiswch gerddoriaeth y gall disgyblion symud iddi a chael profiad o wahanol draddodiadau ffydd a diwylliant. Gallai hyn gynnwys cerddoriaeth Sufi Islamaidd, klezmer o'r traddodiad Iddewiaeth, cerddoriaeth efengylol Gristnogol, caneuon o ffilmiau Bollywood, megis Chaiyya, Chaiyya o Dil Se, a drymiau dhol o ddiwylliant Pwnjabi.

Ymuno ar gyfer Gorymdaith Dathlu Addysg Grefyddol Lle bo hynny'n briodol, gellid cysylltu dwy ysgol neu fwy, boed yn ysgolion arbennig neu'n ysgolion prif ffrwd, mewn dathliad mawr a fydd yn hyrwyddo'r celfyddydau creadigol, gwerthoedd ac ysbrydolrwydd, a hefyd yn creu cyffro o amgylch Addysg Grefyddol.

- Gall yr orymdaith deithio o amgylch yr ysgol, i ysgol arall, neu, lle bo hynny'n bosibl, i'r gymuned. Gellir rhoi symbol crefyddol i bob dosbarth fel ffocws.
- Gall y disgyblion archwilio pa mor bwysig yw'r arwyddion a'r siapiau hyn i gredinwyr trwy edrych ar luniau ohonynt, er enghraifft, khanda neu fandana a wisgir gan Sîc. Gallant addurno eu symbol i wneud iddo edrych yn hardd. Gyda chymorth, gall pob dosbarth wneud baneri neu fflagiau ar gyfer yr orymdaith gyda'u symbol arno.
- Lle bo hynny'n briodol, gellir rhoi dyfyniadau Addysg Grefyddol syml i rai disgyblion, megis 'Caru pawb, helpu pawb' gan Gwrw Nanak neu 'Car dy Gymydog' gan yr Iesu i'w haddurno a'u dal. Gall y plant wisgo dillad lliwgar i ddangos amrywiaeth neu argraffu sashiau i'w gwisgo gyda'r geiriau Addysg Grefyddol neu symbolau crefyddol arnynt.
- Byddai drymiwr bhangra yn berffaith i arwain yr orymdaith. Gallai fod yn gyfle i gysylltu ag ysgol brif ffrwd i ddod o hyd i gerddorion. Fel arall, gellir chwarae cerddoriaeth ddathliadol wedi'i recordio.
- Gall yr orymdaith ddod i ben gyda gwobrau i ddosbarthiadau sydd wedi dangos yr ymdeimlad gorau o ddathlu Addysg Grefyddol. Gellir rhoi gwobrau i unigolion sy'n dangos gwerthoedd yr orymdaith orau, megis helpu eraill, dangos caredigrwydd a derbyn a deall.